***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3092

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 24 Tachwedd 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau**

**2.** Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2001(**1**) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 2, (ym mharagraff (i)) o'r diffiniad o "pwyllgor ardal" dileer "gyda phwerau dirprwyedig i arfer rhai neu'r cyfan o'r swyddogaethau yn rhan A o Atodlen 1";

(b) yn is-baragraff (2)(b) o reoliad 4 mewnosoder ar y diwedd "a'r is-bwyllgorau";

(c) ym mharagraff (2)(a) o reoliad 8 ar ei ddiwedd dileer "a" a mewnosoder "neu";

(ch) yn is-baragraff (9)(a) o reoliad 10 mewnosoder ar y dechrau —

"yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ynglŷn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor ym mharagraff 22 o Atodlen 2";

(d) ym mharagraff (1) o reoliad 14 ar ôl "gyfrifoldeb" mewnosoder —

"i'r awdurdod lleol (heblaw'r rhai y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni gan awdurdod cyfan yn unig) neu";

(dd) yn Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod) yn unol â Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(e) yn Atodlen 2 (Swyddogaethau a all fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod (ond nad oes angen iddynt fod felly)) yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(f) yn Atodlen 3 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Fwrdd awdurdod yn unig) yn unol â Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2001/2284 (Cy.173) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynrychiolwyr Rhieni-lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysi (Cymru) 2001, O.S. 2001/3711 (Cy. 307), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2002, O.S. 2002/810 (Cy. 90), a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Diwygio) (Cymru) 2003, O.S. 2003/155 (Cy.25).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*

23 Tachwedd 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.